



Animal &  
Plant Health  
Agency

Asiantaeth  
Iechyd Anifeiliaid  
a Phlanhigion

# APHA

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

1. **Cyflwyniad**
2. **Cefndir y sefydliad**
3. **Cynllunio a darparu gwasanaethau**
  - 3.1. Polisiâu gweithredol, mentrau a gwasanaethau
  - 3.2. Darparu gwasanaethau
  - 3.3. Swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a gyflawnir ar ran APHA gan drydydd partion.
  - 3.4. Safonau ansawdd
4. **Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**
  - 4.1. Gohebiaeth
  - 4.2. Cyfathrebu dros y ffôn
  - 4.3. Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru
  - 4.4. Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru
  - 4.5. Enghreifftiau eraill o ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru
5. **Wyneb cyhoeddus APHA**
  - 5.1. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu
  - 5.2. Cyhoeddiadau
  - 5.3. Gwefan
  - 5.4. Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiol
  - 5.5. Hunaniaeth gorfforaethol
  - 5.6. Arwyddion yng Nghymru
  - 5.7. Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff
  - 5.8. Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau
6. **Gweithredu'r cynllun**
  - 6.1. Staffio
  - 6.2. Recriwtio
  - 6.3. Hyfforddiant iaith Gymraeg
  - 6.4. Hyfforddiant galwedigaethol
  - 6.5. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
  - 6.6. Gweithio mewn partneriaeth
7. **Trefniadau mewnol**
  - 7.1. Monitro
  - 7.2. Adolygu a newid y cynllun
  - 7.3. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

**Atodiad A – Manylion Cyswllt yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

**Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu APHA**

# 1. CYFLWYNIAD



O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae Cyrff y Goron wedi cytuno i gefnogi a gweithio o fewn ysbryd y Ddeddf. Dyma gynllun APHA sy'n disgrifio sut y bydd APHA yn gweithredu, cyhyd ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau a chyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau y mae APHA yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoeddus yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair cyhoedd pan maent yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, o dan Adran 9 y Ddeddf, a daeth yn weithredol ar 28 Chwefror 2008.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig hwn yn nodi sut mae APHA wedi datblygu ac adeiladu ar gyflawniadau'r cynllun gwreiddiol. Cafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 28 Mehefin 2016.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg.

## 2. CEFNDIR Y SEFYDLIAD

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sy'n gweithio ledled Prydain Fawr ar ran Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Ffurfiwyd yr Asiantaeth ar 1 Hydref 2014 yn dilyn uno'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) â rhannau o'r Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA) sy'n gyfrifol am iechyd planhigion a gwenyn er mwyn creu un asiantaeth sy'n gyfrifol am iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn.

Mae APHA yn gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

Lleolir ei phencadlys yn Weybridge, Surrey ac mae'n cyflogi tua 2,500 o aelodau staff, sydd wedi'u lleoli mewn safleoedd amrywiol ledled y DU.

Mae gan APHA dair prif swyddfa yng Nghymru, dwy swyddfa Gwasanaethau Maes yng Nghaernarfon a Chaerfyrddin a swyddfa Gwasanaethau Gwylidwriaeth a Labordai yng Nghaerfyrddin. Ceir manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa Gorfforaethol APHA a'r tair swyddfa yng Nghymru ar ddiwedd y ddogfen hon (Atodiad A). Ceir rhagor o wybodaeth am APHA ar y wefan yn [www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency](http://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency)



## 3. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU



### 3.1. Polisiâu gweithredol, mentrau a gwasanaethau

Bydd polisiâu, mentrau a gwasanaethau APHA yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Pan fydd APHA yn cyfrannu at y broses o ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, bydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

### 3.2. Darparu gwasanaethau

Trefn arferol APHA fydd sicrhau bod ei gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd APHA yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd ei gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

### 3.3. Swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a gyflawnir ar ran APHA gan drydydd partion

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gan APHA gyda thrydydd partion yn gyson â rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partion yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.

### 3.4. Safonau ansawdd

Mae APHA yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth ymatebol ac effeithlon, o ansawdd uchel, a werthfawrogir gan ein cwsmeriaid. Bydd APHA yn sicrhau y bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae APHA wedi cwblhau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a bydd yn gweithio yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd APHA yn ystyried pobl anabl a bydd yn darparu gwasanaethau mewn fformatau amgen ar gais.

## 4. CYFATHREBU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

### 4.1. Gohebiaeth

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu at APHA yn Gymraeg, bydd APHA yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb).

Bydd yr amserau targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amserau targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennwyd yn Saesneg (h.y. o fewn 15 diwrnod gwaith), yn unol â Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid APHA.

Pan fydd APHA yn dechrau gohebu bydd yn gwneud hynny yn newis iaith y derbynnydd, lle mae hyn yn hysbys.

Os bydd unigolyn yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, bydd APHA yn cadw cofnod o ddymuniad yr unigolyn, ac yn gohebu â'r unigolyn yn Gymraeg o hynny ymlaen.

Lle nad yw APHA yn gwybod dewis iaith y derbynnydd, bydd yn gohebu yn ddwyieithog, ac yn parhau gydag unrhyw ohebiaeth ddilynol yn iaith yr ymateb. Bydd APHA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, yn rhoi gwybod i'r derbynnydd y bydd APHA yn ymateb yn Gymraeg, ac na fydd gohebu'n Gymraeg yn arwain at oedi.

Pan fydd APHA yn anfon gohebiaeth neu gylchlythyrau safonol at nifer o bobl yng Nghymru, byddant yn ddwyieithog oni bai bod APHA yn gwybod y byddai'n well gan y derbynnydd eu cael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg neu'r fersiwn Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, bydd APHA yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yn un pryd.

Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog.

Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth electronig yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Bydd pob gohebiaeth electronig a anfonir gan APHA o Gymru yn cynnwys llofnod electronig dwyieithog.

### 4.2. Cyfathrebu dros y ffôn

Bydd APHA yn sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth gysylltu â swyddfeydd yng Nghymru dros y ffon.

Cyn ffonio cwsmer, bydd staff APHA yn gwirio'r dewis iaith a gofnodir ar y system i sicrhau y caiff y galwad ei gwneud yn newis iaith y cwsmer.

Bydd staff APHA yng Nghymru yn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog.

Bydd negeseuon croeso a negeseuon peiriant ateb yng Nghymru yn rhoi neges ddwyieithog.

Os yw'r person sy'n ffonio am siarad Cymraeg, bydd staff cysylltiadau cwsmeriaid yn ceisio cysylltu'r alwad â rhywun sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad. Os yw'r galwr yn ffonio un o'r llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r person sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, bydd yr aelod o staff yn cynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, bydd y cwsmer yn cael y dewis, fel y bo'n briodol, o drefnu i siaradwr Cymraeg ei ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r sgwrs yn Saesneg neu anfon eu hymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu drwy e-bost.

Pan fydd yn gosod llinellau ffôn cymorth, canolfannau galwadau, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, bydd APHA yn darparu gwasanaeth Cymraeg lle bynnag y bo hynny'n briodol ac yn bosibl. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth iaith Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

## 4. CYFATHREBU Â'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

Oherwydd eu lleoliad, yn gyffredinol ni fyddai'n ymarferol i staff mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgwrsiau ffôn yn Gymraeg oni chynigir y gwasanaeth hwn yn benodol.

### 4.3. Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i hysbysu APHA ymlaen llaw o'u dewis iaith. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi gwybod i APHA ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd APHA yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Bydd APHA yn annog cyfraniadau yn Gymraeg drwy roi gwybod i'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Lle bydd aelod o'r cyhoedd wedi rhoi gwybod i APHA ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd APHA yn darparu'r papurau a gwybodaeth arall ar gyfer y cyfarfod yn Gymraeg a Saesneg, ac yn sicrhau bod adroddiadau a phapurau a gynhychir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg. Wrth ddewis staff i fynyachu cyfarfodydd cyhoeddus, bydd APHA yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn bresennol, fel y bo'r angen, ac y byddant yn gwisgo bathodyn 'Cymraeg' neu ddynodydd cyfatebol i nodi'r ffaith eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### 4.4. Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fydd APHA yn mynychu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yn cadarnhau'r eu dewis iaith cyn gynted â phosibl drwy ofyn i drefnydd y cyfarfod i ddarparu'r wybodaeth hon. Bydd APHA yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd lle

nodir mai Cymraeg yw'r dewis iaith. Os nad oes unrhyw siaradwr Cymraeg sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gael, bydd APHA yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio offer fideo-gynadleda ac offer tebyg.

Oherwydd eu lleoliad ni fyddai'n ymarferol i staff mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 4.5. Enghreifftiau eraill o ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fydd APHA yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, bydd yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gofynnir i ymatebwyr a fyddai'n well ganddynt ateb yr arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Pan fydd APHA yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, bydd yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, bydd APHA yn ystyried dewis iaith y rheini sy'n mynychu ac a oes hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Bydd APHA yn sicrhau y gwneir cyhoeddiadau dros systemau sain yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nid yw'r gofyniad hwn wedi'i anelu at systemau swyddfa mewnol.

## 5. WYNEB CYHOEDDUS APHA

### 5.1. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

Bydd yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunydd arddangos a deunydd hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

Eithriadau i'r uchod fydd deunydd ar gyfer cynulleidfa gyfyng ac arbenigol. Bydd APHA yn ystyried yr angen i'w gyhoeddi'n ddwyieithog ym mhob achos gan ystyried natur y gynulleidfa a'r maes dan sylw.

Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddwy fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg, bydd yr hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

Wrth ddewis staff ar gyfer stondinau arddangos ac arddangosfeydd, bydd APHA yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn bresennol, fel y bo'r angen, ac y byddant yn gwisgo bathodyn 'Cymraeg' neu ddynodydd cyfatebol i nodi'r ffaith eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### 5.2. Cyhoeddiadau

Bydd APHA yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn ddarostyngedig i'r system sgorio gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd lle bynnag y bo'n bosibl.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'r drefn arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Bydd APHA yn defnyddio'r system sgorio y cytunwyd arni i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Os na fyddant ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na chyhoeddiad mewn un iaith - a bydd pris y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth. Bydd hyn hefyd yn gymwys i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar Gov.UK, ar CD Rom neu fel arall.

Caiff unrhyw ganllaw diwygiedig eu sgorio i bennu a oes angen fersiwn Gymraeg cyn eu cyhoeddi ar Gov.UK. Bydd APHA yn sicrhau bod mwy o gyhoeddiadau dwyieithog ar gael ar wefan Gov.UK, dros amser



## 5. WYNEB CYHOEDDUS APHA

### 5.3. Gwefan

Bydd y tudalennau sefydlog a rhyngweithiol ar Gov.UK yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg yn ddarostyngedig i'r system sgorio. Bydd cynnwys cyffredinol, yn ogystal â gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru, ar gael yn Gymraeg fel mater o drefn.

Cynhelir adolygiad o gynnwys APHA ar Gov.UK bob chwe mis i sicrhau bod cynnwys Cymraeg priodol ar gael. Drwy adolygu'r cynnwys, bydd APHA yn datblygu cynllun ar gyfer cynyddu cynnwys Cymraeg drwy gydol oes y cynllun hwn.

Pan fydd APHA yn creu cynnwys newydd ar gyfer Gov.UK, bydd APHA yn ystyried y cyhoeddiad Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Pryd bynnag y bydd APHA yn rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar Gov.UK, bydd y fersiynau Cymraeg eu cael eu rhoi ar yr un pryd, os byddant ar gael.

### 5.4. Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig

Bydd APHA yn sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn gyfan gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a'r drefn arferol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch.

Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Bydd APHA yn defnyddio'r system sgorio y cytunwyd arni i nodi'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

Pan fydd yn mewnbynnu gwybodaeth ar ffurflenni Cymraeg a anfonir at y cyhoedd, bydd APHA yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog sy'n cael eu hanfon at y cyhoedd, bydd APHA yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ei bod yn hysbys y byddai'n well gan bobl dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ran APHA, bydd APHA yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Bydd APHA yn parhau i gynyddu nifer y ffurflenni a'r deunydd esboniadol sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân



## 5. WYNEB CYHOEDDUS APHA

### 5.5. Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd enw APHA, ei manylion cyswllt, ei logo, ei sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ddeunydd sy'n dangos hunaniaeth gorfforaethol APHA yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifennu a deunydd fel cardiau busnes, nodiadau cyfarch a gwahoddiadau.

### 5.6. Arwyddion yng Nghymru

Bydd APHA yn sicrhau bod bob arwydd parhaol a phob arwydd dros dro, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd. Y drefn arferol fydd lleoli'r testun Cymraeg fel y bydd yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Bydd APHA yn cadw at yr arfer hwn pryd bynnag y bydd arwyddion yn cael eu gosod am y tro cyntaf, neu bryd bynnag y bydd yn ailosod arwyddion.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys arwyddion electronig.

### 5.7. Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd – pa un a ydynt yn cael eu cynhyrchu fel fersiwn dwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau iaith Saesneg, bydd swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Efallai y bydd hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyfnodolion iaith Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir yn rhywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

### 5.8. Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau

Caiff datganiadau i'r wasg, sydd â goblygiadau i'r cyhoedd yng Nghymru ac sy'n cael eu hanfon i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru, eu cyhoeddi'n Gymraeg lle mae terfynau amser yn caniatáu hynny.

Wrth osod datganiadau i'r wasg ar Gov. UK, y drefn arferol fydd eu gosod yno yn Gymraeg a Saesneg, yn ddarostyngedig i'r system sgorio.

Bydd APHA yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau â'r wasg a chyfryngau darlledu cyfrwng Cymraeg. Bydd APHA yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i helpu ei gilydd, yn ôl yr angen, ym maes cyfathrebu'n Gymraeg yng Nghymru.

### 5.9. Cyfryngau Cymdeithasau

Wrth osod negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, y drefn arfer fydd eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg, yn ddarostyngedig i'r system sgorio.

Wrth ymateb i negeseuon a gyhoeddir yn Gymraeg, bydd APHA yn sicrhau y caiff yr ymateb ei gyhoeddi'n Gymraeg.

## 6. GWEITHREDU'R CYNLLUN

### 6.1. Staffio

Mae angen staff sy'n siarad Cymraeg sy'n meddu ar sgiliau digonol a phriodol ar bob un o weithleoedd APHA sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn yn Gymraeg. Bydd y gweithdrefnau canlynol yn cael eu gweithredu yn unol â hynny.

Pan fydd APHA yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, bydd APHA yn asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg, ac yn ei chategoreiddio fel swydd lle mae un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:

- a) Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol;
- b) Mae angen i'r unigolyn a benodir ddysgu sgiliau iaith Gymraeg;
- c) Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol; neu
- d) Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol

Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu gallai fod yn gysylltiedig â swydd benodol.

Bydd APHA yn cynnal archwiliad blynyddol i sefydlu nifer y staff a all siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg, yn ogystal â'u gradd, lefel eu gallu, a'u lleoliad (yn cynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Bydd hefyd yn nodi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Bydd canlyniadau'r ddau ymarfer hyn yn cael eu cymharu er mwyn nodi gweithleoedd lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg (gall APHA ystyried y gwasanaethau a gynigir gan unrhyw linellau cymorth, canolfan galwadau neu gyfleusterau tebyg wrth wneud hynny).

Bydd APHA yn ymateb i unrhyw brinder drwy weithgareddau recriwtio a hyfforddi. Bydd hefyd yn ystyried y posibilrwydd o roi'r cyfle i staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd lenwi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.

Bydd APHA yn sicrhau bod derbynfeydd a'r timau cysylltiadau cwsmeriaid mewn swyddfeydd yng Nghymru yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg bob amser



## 6. GWEITHREDU'R CYNLLUN

### 6.2. Recriwtio

Pan fydd APHA yn recriwtio staff bydd yn dilyn y wybodaeth a gesglir drwy'r ymarferion a ddisgrifir o dan "Staffio" uchod.

Os bydd APHA wedi categorioeddio swydd fel un lle mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, yn hanfodol neu fod angen eu dysgu, bydd APHA yn nodi hynny wrth hysbysebu'r swydd ac yn adran cymwyseddau'r swydd. Caiff cyfweiliadau ar gyfer swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol, yn hanfodol neu bod angen eu dysgu eu cynnal yn Gymraeg.

Pan na ellir dod o hyd i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg sy'n addas ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn ddymunol, caiff y person a benodir ei annog i ddysgu Cymraeg.

Efallai y bydd ymgeisydd na all siarad Cymraeg yn cael ei benodi ar gyfer swydd lle ystyrir bod y Gymraeg yn hanfodol, ond lle gellir caniatáu amser i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel ofynnol o gymhwysedd, o fewn cyfnod rhesymol y cytunwyd arno, yn amod cyflogaeth.

Pan na ellir dod o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn hanfodol (neu bod ymgeisydd wedi cael ei benodi er nad yw'n siarad Cymraeg a'i fod yn dysgu'r iaith) bydd APHA yn gwneud trefniadau dros dro lle gellir darparu'r gwasanaeth iaith Gymraeg (drwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o rywle arall yn y sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob swydd APHA lle bydd y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol neu bod angen dysgu'r iaith. Ar gyfer pob swydd arall, caiff pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais eu darparu

yn Gymraeg ar gais yr ymgeisydd swydd.

Ar gyfer swyddfeydd y tu allan i Gymru, bydd APHA yn ystyried p'un a yw bod yn rhugl yn Gymraeg yn sgil dymunol neu'n hanfodol ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, a nodir hyn yn adran cymwyseddau'r swydd ac mewn hysbysebion.

### 6.3. Hyfforddiant iaith Gymraeg

Caiff staff sydd â chyswllt rheolaidd a siaradwyr Cymraeg fel rhan o'u gwaith y cyfle i ddysgu neu wella eu Cymraeg, a bydd APHA yn ystyried sut y gall gefnogi'r rhai sydd yn dymuno gwneud hyn. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru ac sydd am ddysgu Cymraeg, neu sydd am wella'u Cymraeg.

Ar gyfer y swyddfeydd tu allan i Gymru, bydd APHA yn ystyried sut i gefnogi hyfforddiant ar gyfer staff sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau.



## 6. GWEITHREDU'R CYNLLUN

### 6.4. Hyfforddiant galwedigaethol

Bydd APHA yn cynnig hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg lle mae rheolwyr o'r farn bod ei angen ac y gellir ei gyfiawnhau.

### 6.5. Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Rhoddir ystyriaeth i'r angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac i weithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i APHA ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).

Wrth i APHA ddatblygu neu brynu systemau TGCh newydd, bydd yn ystyried y cyhoeddiad Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg ar wefan Comisiynydd y Gymraeg .

Bydd APHA yn darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i staff.

Bydd APHA yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd i staff (lle mae rhyngwyneb Cymraeg yn bodoli).

### 6.6. Gweithio mewn partneriaeth

Pan fydd APHA yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, bydd yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fydd yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd cyfraniad APHA i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a bydd yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Dim ond i bartneriaethau ffurfiol sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn berthnasol.

<sup>1</sup> <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/isadeiledd/Pages/Technoleg.-Gwefannau-a-Meddalwedd-Ystyried-y-Gymraeg.aspx>



## 7. TREFNIADAU MEWNOL



Rhoddir awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y sefydliad i'r mesurau yn y cynllun hwn.

Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Bydd APHA yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith fydd ei angen i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Bydd APHA yn cynnal cynllun gweithredu manwl, gan nodi sut y bydd yn sicrhau bod APHA yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Bydd yr holl waith cyfieithu'n cael ei roi ar gontract gan gynnwys gwaith cyfieithu ar y pryd. Ar gyfer cyfieithiadau sylfaenol sy'n cynnwys dim mwy nag ychydig eiriau, bydd APHA yn sicrhau mai dim ond siaradwyr Cymraeg cymwys a ddefnyddir fel cyfieithwyr.

Rhoddir gwybod i'r staff am y cynllun hwn drwy fewnwyd APHA ac i'r cyhoedd yng Nghymru ar wefan Gov.UK mewn man amlwg.

Bydd APHA yn llunio canllawiau priodol ac yn sicrhau eu bod ar gael i'n staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Caiff unrhyw ganllawiau presennol a ddefnyddir gan staff APHA eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Bydd APHA yn trefnu sesiynau briffio gyda staff yng Nghymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith bob dydd. Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y cynllun hwn.

## 7. TREFNIADAU MEWNOL

### 7.1. Monitro

Bydd APHA yn monitro ei gynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu cysylltiedig. Bydd yr uwch aelod o staff a benodir i gydlynu'r gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn yn adrodd ar gynnydd i'r uwch dîm rheoli.

Bydd gweithdrefnau monitro a chyflwyno adroddiadau presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran cyflawni'r cynllun, fel y bo'n briodol.

Bydd APHA yn adrodd ar ei gynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn i Gomisiynydd y Gymraeg, ar gais.

Y nod yw sicrhau bod APHA yn parhau i weithredu'n unol â'r cynllun hwn. Bydd APHA yn defnyddio dull hunanasesu ac yn llunio adroddiad monitro blynyddol i ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

### 7.2. Adolygu a newid y cynllun

Bydd APHA yn adolygu'r cynllun hwn bob tair blynedd. Yn ogystal, o bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i APHA ail-asesu'r cynllun hwn, neu gynnig diwygiadau iddo, oherwydd newidiadau i swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau y mae'n ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ynddynt, neu am ryw reswm arall.


Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

### 7.3. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau i'w wella at Swyddog Iaith Gymraeg APHA. Dylid cyfeirio gohebiaeth ysgrifenedig at y Swyddog Iaith Gymraeg a'i anfon i Swyddfa Gwasanaethau Maes Caerfyrddin (gweler y manylion cyswllt yn Atodiad A).

Dylid cyfeirio gohebiaeth e-bost ynglŷn â'r cynllun i flwch negeseuon e-bost iaith Gymraeg benodedig APHA, fel a ganlynol: [Welsh.Language@apha.gsi.gov.uk](mailto:Welsh.Language@apha.gsi.gov.uk)

Bydd APHA yn cydweithio â'r Comisiynydd er mwyn datrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.



## **Swyddfa Gorfforaethol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**

Animal & Plant Health Agency

Worcestershire County Hall, Spetchley Road, Worcester, WR5 2NP

**Ffôn:** 01932 341111

**Y tu allan i oriau:** 01932 341111 (peiriant ateb)

**Ffacs:**

**E-bost:** [apha.corporatecorrespondence@apha.gsi.gov.uk](mailto:apha.corporatecorrespondence@apha.gsi.gov.uk)

## **Swyddfeydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru**

### **Gwasanaethau Maes CAERNARFON**

Ardaloedd a gwmpesir - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Gogledd Powys (Sir Drefaldwyn).

Gwasanaethau Maes Caernarfon, Adeiladau'r Goron, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1EP

**Ffôn:** 0300 303 8268

**Y tu allan i oriau:** 07000 780144

**Ffacs:** 01286 674626

**E-bost:** [APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk](mailto:APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk)

### **Gwasanaethau Maes CAERFYRDDIN**

Ardaloedd a gwmpesir - Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Blaenau Gwent, Tor-faen, Casnewydd, Sir Fynwy a De Powys.

Gwasanaethau Maes Caerfyrddin, Tŷ Merlin, Heol Glasdwr, Parc Pensarn, Caerfyrddin SA31 2NF

**Ffôn:** 0300 303 8268

**Y tu allan i oriau:** 07000 780144

**Ffacs:** 01267 245500

**E-bost:** [APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk](mailto:APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk)

### **Adran Gwasanaethau Gwyliadwriaeth a Labordai CAERFYRDDIN**

Canolfan Ymchwiliadau Milfeddygol, Heol Ffynnon Job, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3EZ

**Ffôn:** 01267 235244

**Ffacs:** 01267 236549

**E-bost:** [carmarthen@apha.gsi.gov.uk](mailto:carmarthen@apha.gsi.gov.uk)



## Atodiad 2 Cynllun Gweithredu

## Annex 2 Implementation Plan

Adran Section	Gweithredu	Action	Dyddiad targed Target date	Cyfrifoldeb Responsibility
3	Cynllunio a darparu gwasanaethau			
3.1	Codi ymwybyddiaeth ar draws APHA o'r angen i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio polisi, menter neu wasanaeth newydd		Parhaus	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddog Iaith Gymraeg
3.1	Hysbysu sefydliadau trydydd parti o'r angen i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio polisi, menter neu wasanaeth newydd		Parhaus	Pob aelod o staff sy'n cyfrannu at ddatblygu polisïau, mentrau neu wasanaethau newydd
3.2	Hysbysu'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg		Parhaus	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddog Iaith Gymraeg
3.3	Sicrhau y caiff yr holl drefniadau/cytundebau â thrydydd partion sy'n cynnwys darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru eu cwblhau yn unol â'r cynllun hwn		Parhaus	Tîm caffael / Uwch Swyddog Cyfrifol
3.4	Rhoi cyngor a chanllawiau i staff i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaeth effeithiol ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid. Caiff hyn ei gyflawni drwy roi gwefan SharePoint Cymraeg ar waith yn rhoi canllawiau i staff ar sut i wneud eu gwaith yn unol â'r cynllun hwn. Gellir gofyn i unrhyw aelod o'r grŵp iaith Gymraeg am gyngor a chanllawiau pellach		Rhoi'r wefan SharePoint ar waith erbyn mis Mai 2016  Parhaus	Swyddog Iaith Gymraeg / Grŵp Iaith Gymraeg
4	Cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru			

# ATODIAD 1

4.1	Cadw cofnod o'r cwsmeriaid sy'n dymuno derbyn eu gohebiaeth yn Gymraeg		Parhaus	Tîm Gwasanaethau Cyswllt a Chofrestru
4.2	Sicrhau bod rhestr gyfredol o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael er mwyn ymateb i geisiadau am wasanaeth Cymraeg		Parhaus	Swyddog Iaith Gymraeg
4.3	Annog staff sy'n rhugl neu sy'n dysgu Cymraeg i wisgo bathodyn yn nodi eu gallu wrth gyflawni rôl sy'n ymwneud â'r cyhoedd		Medi 2016	Swyddog Iaith Gymraeg
4.4	Datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol er mwyn i staff ei dilyn wrth drefnu cyfarfodydd cyhoeddus i sicrhau y caiff cyfleuster cyfieithu ar y pryd ei gynnig os bydd aelod o'r cyhoedd am ddefnyddio'r Gymraeg		Mawrth 2017	Swyddog Iaith Gymraeg
4.5	Caiff Gweithdrefn Weithredu Safonol ei datblygu ar gyfer staff a wahoddir i fynychu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yng Nghymru i sicrhau y caiff staff sy'n siarad Cymraeg eu darparu ar gyfer cyfarfodydd sydd eu hangen		Mawrth 2017	Swyddog Iaith Gymraeg
5	Wyneb cyhoeddus APHA			
5.1	Sicrhau y caiff yr holl wybodaeth sy'n cael ei harddangos i'r cyhoedd ei chynhyrchu'n ddwyieithog, gan roi sylw cyfartal i faint, amlygrwydd ac ansawdd		Parhaus	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddog Iaith Gymraeg
5.3	Adolygu'r cynnwys Cymraeg sydd ar gael ar GOV.UK		Bob chwe mis	Swyddog Iaith Gymraeg mewn cydweithrediad â'r tîm GOV.UK
5.4	Adolygu'r system sgorio i ddangos ffurflenni eithriadau a deunydd esboniadol y dylid eu cyfieithu fel mater o drefn. Codi ymwybyddiaeth ar draws APHA o'r newid hwn drwy'r sianel briodol		Hydref 2016	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddog Iaith Gymraeg

# ATODIAD 1

5.6	Sicrhau bod arwyddion newydd sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn dangos y neges yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg wedi'i leoli gyntaf		Parhaus	Gwasanaethau Rhwydwaith Corfforaethol
5.8	Sicrhau bod datganiadau i'r cyfryngau yn ddwyieithog a bod digon o staff wedi cael hyfforddiant i gynnal cyfweiliadau'r cyfryngau yn Gymraeg		Hydref 2017	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddogion y Wasg
5.9	Sicrhau y caiff unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru drwy gyfryngau cymdeithasol neu negeseuon testun ei wneud yn ddwyieithog		Mawrth 2017	Swyddogion y Wasg
6	Gweithredu'r cynllun			
6.1	Sicrhau y cyflogir nifer digonol o staff sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno gwasanaeth effeithiol. Cynnal arolwg blynyddol i ddangos unrhyw fylchau yn y gwasanaeth		Ebrill 2016	Uwch Dîm Rheoli Cymru / Swyddog Iaith Gymraeg
6.2	Ystyried y gofynion iaith ar gyfer pob swydd a hysbysebiri yng Nghymru		Parhaus	Rheolwyr
6.3	Cefnogi staff i ddysgu Cymraeg ac annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle		Rhagfyr 2016	Uwch Dîm Rheoli Cymru
6.5	Sicrhau bod staff sy'n datblygu neu'n caffael systemau TGCh newydd yn cyfeirio at y cyhoeddiad Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg		Hydref 2016	Uwch Swyddog Cyfrifol
7	Trefniadau mewnol			
7	Sicrhau bod staff yn dilyn y broses a gymeradwywyd i ofyn am gyfieithiad		Parhaus	Uwch Swyddog Cyfrifol / Swyddog Iaith Gymraeg
7.1	Cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg		Mehefin 2016	Swyddog Iaith Gymraeg